VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN ABSENOLDEB ARBENNIG

**PRIF AMOD: Dylai pob gweithiwr wneud cais, yn ysgrifenedig, am absenoldeb arbennig o flaen llaw, gan roi cymaint o rybudd â phosibl, ac eithrio mewn amgylchiadau/sefyllfa o Argyfwng.**

Ar gyfer y cyflogeion hynny ar amser hyblyg, bydd angen i chi roi sylw i ddarpariaethau'r Cynllun Amser Hyblyg, tudalen 9.

Mae'r holl ddarpariaethau yn rhai pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser.

***Categorïau ar gyfer Absenoldeb Arbennig:**

**Categori A: partneriaid, dibynyddion (plant gwaed, mabwysiadol neu faeth neu o'r un aelwyd), rhieni'r cyflogai**

**Categori B : Categori A ynghyd â neiniau a theidiau, rhieni'r partner, brodyr neu chwiorydd y cyflogai neu ei bartner, teidiau a neiniau yng nghyfraith, modrybedd/ewythrod, nithoedd/neiaint**

**Categori C : Pob un arall**

| Rhif: | Rheswm am y Cais | Argymhellion Rheoli |
|---|---|---|
| 1. | Apwyntiad Ysbyty wedi'i Drefnu | Absenoldeb â thâl yn amodol ar ddarparu tystiolaeth h.y. cyflwyno cerdyn/llythyr apwyntiad a chwblhau ffurflen(ni) absenoldeb arbennig, cyn yr apwyntiad. |
| 2. | Apwyntiad Meddyg a Deintydd | Disgwylir i gyflogeion drefnu apwyntiadau yn eu hamser eu hunain. Pan nad yw hyn yn bosibl, caiff absenoldeb â thâl ei ddyfarnu yn amodol ar ddarparu tystiolaeth h.y. cyflwyno cerdyn/llythyr apwyntiad a chwblhau ffurflen(ni) absenoldeb arbennig, cyn yr apwyntiad. |
| 3. | Apwyntiad Brys ag Ysbyty, Meddyg neu Ddeintydd | Absenoldeb â thâl yn amodol ar gyflwyno tystiolaeth o'r ysbyty, y meddyg, y deintydd, yn ôl-weithredol. Unrhyw absenoldeb ychwanegol sy'n angenrheidiol yn ôl yr ymgynghorydd meddygol yn unol â Gweithdrefnau Salwch. |
| 4. | Ymweld â phobl yn yr ysbyty neu hebrwng cleifion allanol | Absenoldeb gyda thâl am 1 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn hyn am hyd at 2 ddiwrnod gwaith ar gyfer *Categori A [gweler uchod], yn ôl disgresiwn y swyddog goruchwylio priodol |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Dyletswyddau Gofal Brys | Ystyriwch ddulliau ailbennu gwaith/gwaith amgen er mwyn galluogi cymorth gofalu yn y lle cyntaf. Os nad oes trefniadau wrth gefn wedi eu gwneud ar gyfer yr amgylchiadau hyn, neu nad oes modd eu gwneud, ceir absenoldeb â thâl am hyd at uchafswm o 5 diwrnod gwaith o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis mewn cyfnod calendr treigl. Unrhyw amser ychwanegol i fod yn ôl disgresiwn y prif swyddog priodol mewn ymgynghoriad â Phennaeth Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau |
| 6. | Marwolaeth perthynas o *Categori 'A' | Absenoldeb gyda thâl am hyd at 5 diwrnod gwaith, y gellir ei ymestyn yn dilyn ymgynghori â Phennaeth Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau |
| 7. | Marwolaeth perthynas o *Categori 'B' | 1 diwrnod gwaith o absenoldeb â thâl i fynychu angladd, gellir ei ymestyn yn dibynnu ar amgylchiadau eithriadol gan y Prif Swyddog, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Adnoddau Dynol |
| | *Categori 'B' | Dim darpariaeth |
| 8. | Amser i Ffwrdd ar gyfer astudio a chyn arholiadau | Absenoldeb cyn arholiad ar gyfer cyrsiau awdurdodedig sy'n cyfateb i'r absenoldeb arholiad sydd ei angen |
| 9. | Mynychu seremonïau graddio, gwobrwyo ac anrhydeddu cenedlaethol | Dim darpariaeth oni bai bod anrhydedd cenedlaethol wedi'i dyfarnu o ganlyniad i weithredoedd fel un o gyflogeion y Cyngor |
| 10. | Cyflogai sy'n ymgeisydd ar gyfer etholiad awdurdod lleol * [Gweler troednodyn (1). | Absenoldeb heb dâl ac eithrio ar ddiwrnod etholiad, pan ganiateir absenoldeb gyda thâl |
| 11. | Cyflogai sy'n ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cymru * [Gweler troednodyn (1). | Absenoldeb â thâl am hyd at 1 wythnos waith â thâl ac 1 wythnos waith heb dâl yn ystod cyfnod yr etholiad (yn cynnwys diwrnod y pleidleisio) |
| 12. | Cyflogai sy'n ymgeisydd ar gyfer etholiad Seneddol *[Gweler troednodyn (1). | Absenoldeb â thâl am hyd at 1 wythnos waith â thâl ac 1 wythnos waith heb dâl yn ystod cyfnod yr etholiad (yn cynnwys diwrnod y pleidleisio) |
| 13. | Cyflogai sy'n aelod o awdurdod lleol | Absenoldeb â thâl hyd at 18 diwrnod gwaith, o fewn unrhyw flwyddyn galendr beth bynnag yw nifer yr apwyntiadau, yn amodol ar unrhyw lwfans ar gyfer colli enillion yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor |
| 14. | Cyflogai sy'n aelod o gorff o ganlyniad i aelodaeth o awdurdod lleol | Absenoldeb heb dâl oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio yn erbyn 18 diwrnod gwaith o fewn unrhyw flwyddyn galendr ni waeth beth fo uchafswm nifer yr apwyntiadau fel cynrychiolydd awdurdod lleol gan dynnu'r lwfansau adenilladwy |

- **(1) Gweler troednodyn ar feini prawf mynediad fel y nodir ar dudalen 4.2.**

**CYNLLUN ABSENOLDEB ARBENNIG**

| Rhif: | Rheswm am y Cais | Argymhellion Rheoli |
|---|---|---|
| 15. | Cyflogai sy'n dymuno gwasanaethu fel clerc pleidleisio, swyddog cyfrif, neu rôl etholiadol arall sy'n ymwneud ag etholiadau/cyfrifon a weinyddir gan Gyngor Bro Morgannwg | Absenoldeb heb dâl Gadewch gyda thâl am bob etholiad yn y Fro.<br>Bydd staff sy'n dymuno gwasanaethu fel clerc pleidleisio yng Nghaerdydd yn derbyn absenoldeb gyda chyflog yn amodol ar drefniadau cilyddol ar waith. Dylid ceisio caniatâd eich rheolwr llinell ymlaen llaw oherwydd gellir gwneud disgresiwn i wrthod mewn achosion lle mae nifer fawr o geisiadau wedi'u rhoi eisoes. |
| 16. | Cyflogai sydd wedi'i benodi gan Weinyddiaeth y Llywodraeth, Cymdeithas Awdurdodau Lleol neu awdurdod lleol i wasanaethu ar Bwyllgor, Tribiwnlys neu Banel; | Absenoldeb â thâl llai lwfansau adenilladwy i uchafswm o 2 wythnos waith enillion gros |
| 17. | Presenoldeb yn y llys ar Wasanaeth Rheithgor | Absenoldeb â thâl, yn amodol ar y cyflogai yn hawlio colled enillion o dan Reoliadau Lwfans Rheithwyr ac ad-dalu'r Cyngor |
| 18. | Presenoldeb yn y llys fel Tyst | Absenoldeb â thâl, yn amodol ar y cyflogai yn ad-dalu'r Cyngor gydag unrhyw iawndal a dderbyniwyd am golli enillion |
| 19. | Presenoldeb yn y llys fel Diffynnydd | Absenoldeb â thâl tra'n cynrychioli'r Cyngor |
| 20. | Presenoldeb yn y llys fel Achwynydd | Absenoldeb â thâl tra'n cynrychioli'r Cyngor |
| 21. | Cyflogai a benodir yn Ynad Heddwch | Absenoldeb â thâl hyd at uchafswm o 18 diwrnod gwaith neu 36 hanner diwrnod o fewn unrhyw 12 mis mewn cyfnod calendr treigl |
| 22. | Cyflogai a ddewiswyd i gynrychioli Gwlad | Dim darpariaeth (disgresiwn y Cabinet) |
| 23. | Cyflogeion sy'n mynychu cyfweliad o fewn y Cyngor**.** | Fel sy'n ofynnol yn unol â'r broses Recriwtio a Dethol |
| 24. | Cyflogeion sy'n mynychu cyfweliad o fewn Llywodraeth Leol | Dim darpariaeth |
| 25. | Cyflogeion sy'n Llywodraethwyr Ysgol sy'n mynychu cyfarfodydd a gynhelir yn ystod y diwrnod gwaith | Absenoldeb â thâl ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol Bro Morgannwg yn amodol ar gytundeb cyfatebol pan gyfeirir at Lywodraethwr mewn ysgol nad yw ym Mro Morgannwg |

## CYNLLUN ABSENOLDEB ARBENNIG

| Rhif: | Rheswm am y Cais | Argymhellion Rheoli |
|---|---|---|
| 26. | Cyflogeion sy'n aelodau gwirfoddol o'r Lluoedd Wrth Gefn | Un wythnos waith â thâl, un wythnos waith absenoldeb di-dâl yn ogystal â hawl i wyliau blynyddol, i alluogi'r cyflogai i fynychu Gwersyll, yn amodol ar wasanaethau. |
| 27. | Diffoddwyr Tân wrth gefn, Cwnstabliaid Heddlu Arbennig, Gwasanaeth Achub Mynydd Brys, Gwasanaeth Ambiwlans Brys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub [RNLI] | <u>Ymateb i alwad frys</u> = amser i ffwrdd â thâl ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau argyfwng sy'n digwydd o fewn trefniadau gweithio dan gontract <u>Hyfforddiant Hanfodol Rhagnodedig</u> = hyd at 5 diwrnod o absenoldeb â thâl y flwyddyn, drwy gytundeb ymlaen llaw a chadarnhad ysgrifenedig gan yr Heddlu neu'r Gwasanaeth Brys perthnasol. |
| 28. | Rhoddwyr gwaed/plasma | Pan fo'n hanfodol i roddwr fod yn bresennol ar safle nad yw'n eiddo'r cyngor , rhaid cael cadarnhad ysgrifenedig gan y Gwasanaethau Gwaed Cenedlaethol/ysbyty darparu absenoldeb fel apwyntiad ysbyty |
| 29. | Rhoddion mêr esgyrn | Hyd at 5 diwrnod yn ôl disgresiwn y Cyngor yn dibynnu ar yr amgylchiadau, yn amodol ar gadarnhad ysgrifenedig gan y darparwr gwasanaeth iechyd. Dylid ystyried yn gydymdeimladol unrhyw absenoldeb salwch dilynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adfer/adsefydlu. |
| 30. | Argyfwng yn y cartref h.y. tân, llifogydd, byrgleriaeth | Gellir ymestyn absenoldeb 1 diwrnod gwaith â thâl yn dibynnu ar amgylchiadau eithriadol, lle caiff ei gefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth y cyflogai ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr sy'n cyflogi a Phennaeth Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau |
| 31. | Cyfnod Mamolaeth | Gweler y polisi ar wahân ar gyfer cymhwysedd a hawliau |
| 32. | Cyfnod Tadolaeth/Absenoldeb Rhiant | Gweler y polisïau ar wahân ar gyfer cymhwysedd a hawliau |
| 33. | Gofalwyr Maeth a gyflogir gan Gyngor Bro Morgannwg (gan gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau) yn cynnal plant dan ofal Cyngor Bro Morgannwg | I fynychu hyfforddiant - hyd at 5 diwrnod y flwyddyn (rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ei ddilysu) |

**TROEDNODYN**

- **(1) Mae ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol yn gymwys ar gyfer un o'r darpariaethau [Rhif**
- **12 i 14 yn gynwysedig, mewn unrhyw gyfnod o 8 wythnos]**
- **Mae eitemau sy'n nodi absenoldeb â thâl y flwyddyn yn berthnasol i'r flwyddyn galendr (ychwanegwyd 5/10/10)**

JCF 25/11/02 Cabinet 11/12/02, eitem wedi'i diweddaru rhif 15 yn unig 03/03/08, troednodyn 05/10/10, *flex link* 30/07/12, ychwanegu absenoldeb rhiant Rhif 32 17/04/13, newid i ddyletswyddau gofal hanfodol a chyfeiriad at ddarpariaethau *pro rata* ar gyfer cyflogeion rhan-amser Ebrill 19 Paragraff etholiad wedi'i ddiwygio i gynnwys Caerdydd 2021.